"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1890. [RHIF 34.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y diweddar John James, Gellionen—III.	217
Yr Enw Mam	220
Pechod ac Iachawdwriaeth	221
Darwiniaeth a Dyn y Dyfodol	223
Y Pechod Anfaddeuol	226
Toriad y Dydd	227
Yn ffyddlon ar ychydig	227
Nodynau Gwasgarog	230
Adolygiad y Wasg	235
Nodiadau Min y Ffordd	236
Manion ac Hanesion	237
Marwgofion	239

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau:—W.J., Pitcott Cottage; W.D., Cribin; T.Ll., Porthcawl; J.J., Tonypandy; J.T., Whitland; E.J., Aberdare; D.H., Pontsticill; J.D., Capelygroes; P.P., Blaentrafle; J.E., Newcastle Emlyn; E.P., Glyncorrwg.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
Nr. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

CYMDEITHAS Y DYNION IEUAINC.

Miss Jones, Wern, 5s.; Miss Davies, etto, 5s.; Mrs. Davies, etto, 5s.; Mrs Davies, Trebanau, 5s.; Mr. Evan Davies, Blaenwaun, 2s.; Mrs. Rees, Glanteify, 1s.; Miss Davies, Caeronen, 1s.; Mr. William Davies, Llwynifan, 1s.; Miss Davies, Llwynifan Cottage, 1s.; Mrs. M. Jones, Llwynfedw, 6ch.; Mr. Morgan Jones, Lanlas, 6ch.; Mr. Daniel Davies, Llettylluwch, 6ch; cyfanswm, £1 7s. 6ch.

Nid oes ond ychydig arian yn y Drysorfa, tra mae angen am lawer. Anfoned cyfeillion caredig eu cyfraniadau'n fuan. R. C. Jones, Ysg.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

Mount Pleasant Garden, Aberdare.

LLAWLYFR YR UNDODWR, Pris 6ch.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1890. [RHIF 34.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

JOHN JAMES, GELLIONEN.

III.

YN fy mhapyr diweddaf dywedais i Dr. Charles Lloyd, fel yr oeddwn yn tybio, fod ar ei oreu, ac yn llwyddiannus hefyd yn ei waith, i ddylanwadu ar John James i aros yn Sir Aberteifi i fugeilio praidd ieuanc Capelygroes a Phantdefaid.

Darfu i John James, ryw amser yn gynnar yn y flwyddyn 1803, anfon llythyr o Exeter i Dr. Charles Lloyd, yn amlygu dymuniad i adael yr athrofa hono a myned i York, ac yn bur debyg yn ceisio gan y Dr. i gymmeryd ei blaid drwy ysgrifenu at *managers* Athrofa York i ddeisyf arnynt i'w gymmeryd i fewn. Byddai llythyr y Dr., mewn atebiad i eiddo John James, yn y crynswth o hono, yn llawer rhy faith i'w osod yn YR YMOFYNYDD, ac wele yn canlyn dalfyriad o'r llythyr hwnw yn Gymraeg er mwyn y Cymro unwaith:—

PALGRAVE, Nr. DISS,
Ebrill 27, 1803.

ANWYL SYR,—Y mae eich llythyr yn peru i mi gryn syndod a blinder. Nis gwn yn iawn pa gynghor i'w roi i chwi, ond fy marn I yw na ddylech symmud o Exeter i York. O ba le y daw'r arian i'ch cynnal? Na feddyliwch yn rhy sicr y bydd y rhai ydynt yn cyfranu er eich cynnorthwyo yn y blaenaf, i fod yr un mor barod i'ch cynnorthwyo yn yr olaf. Os na ellwch aros am dair blynedd yn Exeter fel yr oeddid yn bwriadu ar y cyntaf, yr wyf yn meddwl y gellwch fforddio bod yno un flwyddyn yn chwaneg beth bynag, os nad ydwyf yn camgyfrif eich adnoddau. Yn ychwanegol at yr hyn sydd genych eich hunan, y mae eich bwyd a'ch lletty yn y coleg yn rhad. Ar ddiwedd blwyddyn etto ceir ystyried beth a ellir wneyd wed'yn.

Aroswch hyd hyny, a *thrustwch* i Ragluniaeth. Hefyd, yr wyf braidd yn teimlo yn falch nad yw eich rhagolygon yn rhy addawol, ac na ellwch yn iawn fod yn y coleg dros ddwy flynedd. Y mae yn golled i chwi yn ddiau, ond dichon y bydd y daioni a wnewch i ereill i orbwyso'r golled, a bod yn ddigonol iawn. Dyn ieuanc iawn oedd 'nhad (Dafydd Llwyd, Brynllefrith,) pan fu farw Jenkin Jones (1742), a thrwy daerni di-ildio pobl Llwynrhydowen, gadawodd Gaerfyrddin yn mhen dwy flynedd neu ddwy flynedd a hanner i fod yn weinidog iddynt. Gallwch chwi, ar gyfrif eich oedran, adael y coleg yn well nag y gallai efe, ac erlyn eich myfyrdodau yn effeithiol wedi dyfod oddiyno. Hefyd, mae amgylchiadau yn gofyn eich gwasanaeth cyn gynted ag y gellir ei chael. Y mae fy llygad arnoch er ys tro, ac yr wyf wedi eich arfaethu i fod yn weinidog i'r cynnulleidfaoedd newydd sydd yn Sir Aberteifi, sef Pantdefaid a Chapelygroes. Ychydig siawns sydd ganddynt i gael gweinidog cyn pen blwyddyn etto—yr amser wyf wedi bennodi i chwi aros yn Exeter. Gallant ymdaraw yn rhywlun hyd hyny, fel y maent yn gorfod gwneyd yn awr, er fod gwrthwynebiad a dylanwad gelynion yn fawr. Yr un ag oedd yn arfer eu cynnorthwyo, y mae hwnw wedi cadw i ffwrdd. Y maent eisoes wedi bod ddau Sul Cymundeb, un ar ol y llall, heb weinidog i roi'r Cymun iddynt, ond yr ail Sul, David Jenkin Rees, fel patriarch, a gyflawnodd hyny o wasanaeth iddynt. Mae yn ofynol i'r cynnulleidfaoedd hyn gael yn weinidog iddynt un a fyddo yn wr galluog ac yn foddlon rhoi ei holl amser at waith y weinidogaeth a chyda sêl merthyr; ac yr ydych chwi, ar gyfrif eich ieuenctid a'ch cymhwysderau ereill, yr oll sydd yn eisieu arnynt. Yr wyf yn eich trefnu i fyw yn Llanwnen, ac i gadw ysgol yn Nghapelygroes. Bydd i chwi gael o gyflog rhwng Pantdefaid a Chapelygroes ac Ystrad yn nghyd ryw ddeg punt ar hugain—mwy nag a gafodd Mr. Davis (yr Hen Ddafis) o gyflog erioed. Gweddai fod eich ymddygiad yn sobr a difrifol, a chadw o honoch yn mhell o'r dafarn. Astudiwch dduwinyddiaeth yn ddyfal, a dysgwch y ffordd i lefaru yn effeithiol wrth bregethu. Yr ydych yn rhagori mewn gweddi yn barod. Rhaid i chwi, tra y parhao eich gwyliau eleni, bregethu i'r cynnulleidfaoedd hyn yn ddiomedd, a byddwch yn well yn eich poced hefyd: y maent yn addaw i'r sawl a'u gwasanaetho ddeg swllt a chwe' cheiniog bob Sul. Gwnaethant hyn o addewid i mi cyn ymadael. Ac yna, os bydd eich gwasanaeth yn gymmeradwy ganddynt, ysgrifenaf atynt i roi galwad i chwi *eleni*, ac aros wrthych hyd y flwyddyn nesaf. Ydwyf, anwyl Syr, yr eiddoch, &c.,

C. Lloyd.

Dengys y llythyr uchod, neu'r talfyriad yn hytrach, yn eglur ddigon gynllun ac arfaeth Dr. C. Lloyd, os nid hefyd fod dealldwriaeth rhyngddo a'r cynnulleidfaoedd hyn yn barod. Dr. C. Lloyd oedd yr unig weinidog â'r hwn y gallent ymgynghori dan yr amgylchiadau. Yr oedd, meddai ef, wedi bod yn pregethu iddynt am yn agos i flwyddyn, ac yn teimlo drostynt yn eu hamddifadrwydd ar y pryd. Yr oedd y cynnulleidfaoedd Ariaidd, oddiwrth y rhai yr oeddent, fel *advanced thinkers*, wedi ymneillduo, yn nghyd â'u gweinidogion, fel yr oedd braidd yn naturiol, yn rhoi'r *cold shoulder* iddynt. Pan y mae ymraniad yn cymmeryd lle, nid yw y naill blaid na'r llall heb ei beiau. Ond erbyn heddyw y mae canolfur y gwahaniaeth wedi ei dynu i lawr a'r elyniaeth wedi ei lladd. Nid oes un gynnulleidfa, am a wn I, yn fwy Undodaidd na'r llall yn Neheubarth Cymru, ac felly y parhaont i fyned rhag eu blaen mewn undeb brawdol a gwresog, yn fath o *pioneers* yn

parotoi'r ffordd drwy anialwch gau dybiau'r byd crefyddol i ereill ddyfod ar ein hol. Y mae'r enwadau yn canlyn, ac amryw o honynt nid o hirbell—y maent wrth ein sodlau.

Hydref 8, 1803, anfonodd y cynnulleidfaoedd uchod alwad i John James ddyfod atynt yn weinidog, wedi ei llawnodi drostynt gan David Jenkin Rees a David Evans, Esger; ond cyn amlygu iddynt ei dderbyniad o honi, yr wyf yn barnu iddo ysgrifenu at D. J. R. i gael gwybod yn agos pa faint o gyflog allasent roddi iddo, yn nghyd â rhyw bethau ereill mewn cyssylltiad â'r weinidogaeth yn eu plith os y byddai yn ymgymmeryd â hi, ac i D. J. Rees anfon iddo y llythyr canlynol mewn atebiad. Y mae hytrach yn faith, ond ar gyfrif ei symlrwydd a'r didwylldra a welir ynddo, barnaf mai trueni fyddai gadael dim o hono allan:—

"LLOYDJACK,
"Tachwedd 5ed, 1803.

"ANWYL GYFAILL,—Darfu i amryw o'r ddwy gynnulleidfa ystyried eich amgylchiadau a'r eiddom ein hunain hefyd. Nid oes genym ni ddim gobaith hyderus y gallwn gasglu uwchlaw deugain punt yn y flwyddyn. Gan fod ein hachos yn gyfangwbl newydd, ac heb gael profiad o gymmaint ag un casgliad o'r blaen, nis gallwn ddysgwyl fawr gasgliad y flwyddyn hon pan y gwnelom, o achos nad oes neb yn ein dysgu ond unwaith yn y *mis*, oddieithr yn achlysurol, na neb felly wedi i Daniel Jones ymadael. Yr ydym yn dyfod at ein gilydd i'r tai cyfarfod i ddarllen a chydaddoli bob Sabboth, ac nid yw ein cydgynnulliad hyd yma ddim yn lleihau.

"Mawr yw ymdrech ein gwrthwynebwyr i berswadio y mwyaf anwadal i'n gadael, gan, meddant, y byddwn mor aflwyddiannus yn ein galwad i chwi ag y buom i Mr. Parry, ac mai felly yr haeddem ac y byddwn hyd nes llwyr ddiffoddo ein cynnulleidfaoedd, am i ni eu gadael hwynt ac anfoddloni Mr. Davis, yr hwn y mae ei awdurdod mor helaeth. Er hyny, yr ydym yn gobeithio yn fawr fod cynnifer o ddynion o egwyddor yn ein plith ag a gynnalio ein hachos yn ei febyd hyd nes y byddo i boethder gwyn rhagfarn ddiffoddi, ac y byddo y gwirionedd mor effeithiol a chymmeradwyo ein hachos, a gwneuthur ein cynnulleidfaoedd yn lluosog a llwyddiannus, er gwasanaeth gwirionedd, Cristionogrwydd, a rhinwedd yn ein cymmydogaethau, ac hefyd sefyllfa ddefnyddiol a chysurus i'n gweinidog.

"Yr ydym yn gobeithio am danoch chwi eich bod yn meddiannu cymmaint o gariad at y gwirionedd ac at eich cenedl, a serch atom ni, y rhai a roddasom gymmaint o'n hyder arnoch chwi am effeithiol gynnorthwy i ysgwyd ymaith iau tywyllwch a rhagfarn, ac hefyd eich bod yn meddiannu cymmaint o egwyddor apostolaidd, fel ag yr anturiwch rywfaint am fydol sefyllfa wrth ddyfod i'n cynnorthwyo. Mae Dafydd yr Esger, John Blaenwaun, Thomas Rhydybene, a finau yn ymrwymo i chwi am ddeugain punt yn y flwyddyn y ddwy flynedd gyntaf, pa beth bynag wnelo'r casgliad, ac os daw yn ychwaneg, bydd i chwi.

"Y mae Mrs. Lloyd, Llwynrhydowen, yn cynnyg lle i chwi gyda hi, ac hefyd mae Enoch Blaenwaun yn foddlon rhoddi i chwi y tŷ lle y buasai Josiah ei fab, yr hwn oedd deiliwr a *watchmaker*. Mae'r tŷ yng nghlôs Blaenwaun yn gyfleus; gallwch gael eich cynnaliaeth yn hollol, neu ynte tŷ a'ch gwely. Mae'r cynnygiadau uchod yn cael eu haddaw ar ammodau esmwyth, meddant, ond ni chefais wybod y swm. Mae'r amrywiol gymmydogaethau hyny yn addaw i chwi geffyl i'w farchogaeth bob Sabboth am ddim taliad. Bydd y cymmydogaethau hyny yn gyfleus at y tai cyrdd-

au, ac hefyd i gadw ysgol yn un o honynt. Mae y plant sydd am ddysgu darllen yn talu coron y chwarter y flwyddyn hon yn Nghastell Hywel. Cewch yn Lloydjack ystafell a lle i gyneu tân, a gwely am swllt yr wythnos, neu ynte cewch eich bord gyda'm gwraig a finau, eich gwely a'ch golchiad, am bymtheg punt y flwyddyn; ond pan y byddoch yn chwennych tân a goleu yn eich ystafell wrthych eich hunan, bydd y gost hyny arnoch yn chwaneg. Cyst y tanwydd, fel yr wyf yn tybied, o bymtheg swllt i bunt. Cewch ei gario am ddim. Cewch wasanaeth ceffyl a chyfrwy bob Sabboth, ac mor fynych ag y gallwyf bob amser arall, am ddim. Bydd yn dda genyf eich cwmpeini. Mae yn ddrwg iawn genyf i Henry Davies ffaelu myned yn y blaen gogyfer â'r weinidogaeth, yr hyn, mor belled ag y gallais ddeall, oedd tueddiad ei galon. Rhyfedd oedd genyf weled Tad a Mam a Brawd yn trin plentyn a brawd gyda chymmaint haerllugrwydd, yn unig am wahaniaeth opiniwn. Yr oeddwn yn gobeithio y byddai i gyfeillach rhyddymofyniad i'w gynnorthwyo ef i gyrhaedd ei ddymuniad, a'i waredu ef yn hollol o grafanc echryslawn Calvin. Ysgrifenwch ateb yn glau. Cofiwch fi at eich parchedig athraw. Hyn oddiwrth eich gwir ewyllysiwr da a'ch cyfaill. D. J. Rees."

Y mae y llythyr uchod yn air am air, ond nid yn llythyren am lythyren yn hollol, yn gopi o'r gwreiddiol. Y Daniel Jones a'r Henry Davies y cyfeirir atynt ynddo oeddent wedi hyny Dr. Daniel Jones, Gravesend, a Dr. Henry Davies, Taunton, y rhai y crybwyllwyd eu henwau mewn papyr blaenorol fel gwrthodedigion Coleg Caerfyrddin. Rhagor am danynt mewn rhifyn dyfodol, fe ddichon, os y byddaf byw. Yr oeddwn yn bwriadu gosod yr alwad a roddwyd i John James a'i dderbyniad ef o honi yn y rhifyn presenol, ond aeth y papyr hwn yn rhy faith.

Awst 27, 1890. T. T.

YR ENW MAM.

O! mae'r enw mam yn anwyl, hyd yr ymyl mae'n llawn swyn,
I wanwynol dymhor einioes ar ei aden mae'n fy nwyn;
Cyn i frigyn gofid wreiddio yn fy mron i beru loes,
Ac i law hudoliaeth wenog ddangos i mi lwybrau croes.

O fy mlaen daw'r aelwyd ddyddan a'i chwareuon yn eu tro,
A chyfeillion hoff mynwesol, gwelir hwy trwy ddrych y co';
Ebargofir llawer gwyneb, gyda hyny llawer cam,
Ond yn wyrdd ar gof y prydydd bydd yr enw cun "fy mam."

Pan chwareuwn â'm teganau ar lwys lwybrau gylch y tŷ,
Byddai mam â gwên ofalus yno'n gwylio arnom ni;
Os dolurus saeth a ddeuai, gan archolli'm ieuanc fron,
Fel y dafnau mêl disgynai geiriau a brawddegau hon.

Enwog enw! dy gofleidio myn fy mynwes gynhes I,
Dweyd dy gynnwys—ah! nis medraf dreiddio i'th ddyfnderoedd di;
Cariad dwfn, gofal cysson, ac addfwynder pur, dinam,
Ydynt berlau gwerthfawr, dysglaer, yn yr enw swynol "mam."

Cefncoed. CASWALLON.

PECHOD AC IACHAWDWRIAETH.

DADL FRAWDOL.

"*A gwaed Iesu Grist ei fab Ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod.*"—IOAN.

CYHOEDDODD Dr. Layman Abbott erthygl yn yr *Andover Review* am fis Tachwedd, yn ol y *Christian World*, ar "Waed Iesu Grist," gan gymeryd y tir mai nid drwy waed anianyddol Iesu Grist sydd yn rhedeg drwy ei wythienau, fel y mae yr Eglwys wedi dysgu, y mae dynion yn cael eu prynu, ond trwy fywyd Crist, yn cael ei gysgodi, trwy yr hwn y mae natur Duw yn dyfod i fewn i ni.

Ysgrifenodd Mr. Edward Abbott, Massachusetts, mewn llythyr at ei frawd, y Dr. Layman Abbott, yn ceisio ganddo am esponiadau, ac yn holi yn neillduol pa un a fuasai amryw destynau gyda golwg ar waed Crist ac aberth Crist ddim yn awgrymu i'r sawl yr ysgrifenwyd y geiriau atynt y meddylddrych o iawn neu gymmod drwy farwolaeth Crist —"rhywfath o aberth cymmodroddawl gan Fab Duw!

Ymddangosodd y llythyr hwn a'r atebiad iddo yn y *Christian Union*. Yn ysgrifenu yn nhy ei frawd, dywed y Dr.,—

Y cwestiwn yw, nid a ydym ni yn cael ein cadw drwy aberth, ond oddiwrth *beth* yr ydym yn cael ein cadw? a pha fodd? Y mae yn edrych ac yn manylu ar y cwestiynau hyn ar wahan.

I. Y mae yr Hen Destament yn gosod pwys ar aberth, a'r Testament Newydd ar aberth Crist; ond nid yw un o honynt yn arddangos aberth fel dirprwyaeth am gosp, nac fel moddion neu offeryn i bwrcasu maddeuant, neu leihad o gosp, neu drefn o gyfiawnder boddhaol, nac fel ffordd o ddofi llid. Y mae yr arferion hyn o aberth yn ymddangos mewn llenyddiaeth Roegaidd, ond nid mewn llenyddiaeth Hebreaidd. Un amcan mawr o eiddo yr ysgrifenwyr Hebreaidd—y cyfreithwyr, y beirdd, y proffwydi, yr athrawon—o Moses hyd Paul oedd, gwrthdrin a chyweirio yr amgyffrediad paganaidd hwn o iachawdwriaeth—dysgu mai oddiwrth bechod, nid oddiwrth ddyoddefaint, yr ydym yn sefyll mewn angen am ein cadw—nid oddiwrth bechod drwy ddyoddefaint. Yn yr Hen Destament bob amser y mae pureiddiad yn gyssylltiedig, nid â maddeuant, ond ag aberthau. Y ty, y deml, y llestri cyssegredig, yr offeiriad, y dyn neu fenyw aflan, y genedl euog, sydd yn cael

ei glanhau, ei phuro, ei sancteiddio, ei chyssegru, ei gosod ar wahan i arferion Dwyfol neu fywyd Dwyfol, trwy aberth. Yn y Testament Newydd gyda phureiddiad, nid gyda maddeuant, mae aberth Crist yn gyssylltiedig bob amser. Yr allwedd i'r esponiad yw y testyn, "Gwaed Iesu Grist ei fab Ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod." Pureiddiad—nid maddeuant, gollyngdod neu ddilead pechod—nid dilead, sydd yn cael ei addaw. Gall maddeuant yn wir ganlyn maddeugarwch, gall dilead o'i gosp darddu oddiwrth neu godi oddiar faddeuant o bechod, ond maddeuant yw y canlyniad, y ddamwain, y canlyniad damweiniol—nid yr amcan, y dyben, y prif amcan: puredigaeth bersonol yw hyn. Oen Duw sydd yn cymmeryd ymaith bechodau y byd. Mae yr Iesu yn cael ei alw felly am ei fod yn cadw y bobl oddiwrth eu pechodau. Yn ei waed Ef y mae prynedigaeth, hyd y nod maddeuant pechodau. Y mae Efe yn gorchymyn i'w ddysgyblion yfed o'i gwpan Ef oblegyd taw y cwpan a dywalltwyd dros lawer er maddeuant eu pechodau yw. Ni allaf gael allan yn y Groeg clasurol yr ymadrodd, "gollyngdod pechodau," nac yn y Testament Newydd Groeg yr ymadrodd, "gollyngdod cospedigaeth." Yr oedd y pagan yn foddlon bod yn bechadur pe gallasai osgoi bod yn ddyoddefydd; gorchymynir i'r Cristion roesawu dyoddefaint os y gall drwy hyny sicrhau rhyddhad oddiwrth bechod.

II. Os yw hyn yn wir, yna y cwestiwn sydd gan efrydydd o'r Beibl ac o fywyd i'w ofyn iddo ei hunan yw, pa fodd y gall dyoddefaint yr un diniwed dycio, nid i bwrcasu maddeuant dros yr euog, ond i'w buro a'i berffeithio? Pa fodd y gall hyn wasanaethu i'w ryddhau Ef, nid oddiwrth gosp pechod a'i gaethiwed?

Yr wyf wedi ymdrechu taflu rhyw wreichionen o oleuni yn yr erthygl at waed Crist, trwy ddangos fod gwaed, yn iaith arferol pob llenyddiaeth, yn sefyll yn gyntaf dros gymmeriad, yn nesaf drwy draws-symmudiad cymmeriad, ac yn drydydd dros draws-symmudiad cymmeriad drwy borth dyoddefaint. Nid ymddengys i mi fod y Testament Newydd yn rhoddi sail i'r opiniwn i Grist farw i ddarbwyllo Duw i faddeu, neu i'w alluogi i faddeu; hyny yw, i ddofi ei lid neu i foddloni ei gyfraith Ef. Nid yw cyfiawnder Dwyfol ddim yn cael ei osod allan yn y Beibl fel rhwystr neu attalfa i faddeuant; yn y gwrthwyneb, dywedir ei fod Ef yn ffyddlon ac yn gyfiawn i faddeu i ni ein pechodau, ac i'n glanhau oddiwrth ein holl annghyfiawnder. Cyfiawnder cyfiawnhaol yw ei gyfiawnder Ef; y mae ei gyfiawnder Ef yn unioni yr annghyfiawn; ei gyfraith Ef yw offeryn ei drugaredd, fel yn ein cyfreithiau ni o bob dysgyblaeth, yn cael eu ffurfio er diwygiad y drwgweithredwr. Marwolaeth Crist yw ein bywyd ni.

L.

Gwrthodwyd y gloch a'r elor at wasanaeth angladd boneddiges Annghydffurfiol yn St. Helen's, Isle of Wight, yr hon oedd i gael ei chladdu yn ol deddf 1880. Tybir fod y gwrthodiad yn annghyfreithlawn; yr oedd yn sicr yn an-Nghristnogol.

DARWINIAETH A DYN Y DYFODOL.

[Nid allan o'r *Ninteenth Century.*"]

Mae yn wir nas gallwn wneuthur Darwin yn atebol am bob peth sydd heddyw yn myned dan yr enw Darwiniaeth; ac nid ydym yn golygu fod y sylwadau canlynol i'w cael yn un o'i lyfrau. Ymfoddlonai efe ar fwrw golwg dros y gorphenol i geisio esponio Dyn y presenol, heb awgrymu dim am Ddyn y Dyfodol. Ond y mae mwy (?) na Darwin yn ein plith heddyw—mwy, am y gall yr hwn sydd wedi esgyn a sefyll ar ysgwyddau arall weled yn mhellach na'r arall hwnw sydd odditano. Dysgai Darwin ni fod dyn yn deilliaw oddiwrth hynafiaid blewog—hynafiaid yn cario cynffon; nid cynffon tebyg i ambell ysgolor o bregethwr y dyddiau hyn, ond cynffon lythyrenol. Cyrhaeddodd dyn ei berffeithrwydd uchel presenol—perffeithrwydd corff feddyliwn—trwy raddol adael ar ei ol y nodweddion anifeilaidd. Fel hyn y mae y diweddar ddoniol hwnw, Mortimer Collins, wedi canu :—

> "There was an ape in the days that were earlier,
> Centuries passed and his hair grew curlier;
> Centuries more gave a thumb to his wrist—
> He was then a man and a positivist!"

Ond wedi bod yn esgyn ar hyd graddfa esgynol prydferthwch am y canrifoedd afrifed ydynt yn estyn dros fedd y "missing link," mae y Darwiniaid diweddar yn dywedyd fod cyfeiriad newydd i gael ei gymmeryd, ac yr ydym i fyned yn ein hol o leiaf mewn tri o bethau.

Yr ydym ar fedr eu hysgrifenu i lawr yn y fan hon er mwyn budd ac adeiladaeth, ac i raddau er mwyn dyfyrwch a iechyd darllenwyr Yr Ymofynydd—yn enwedig y rhai *good-looking* o honynt, ac y mae y rhai hyny yn lluaws mawr, wrth gwrs, heb gyfrif y rhai bach pert a adewir gartref o herwydd eu bod heb basio'r *standards*—yr ydym yn gwneuthur hyny er mwyn iddynt gael gwybod at beth y maent hwy eu disgynyddion yn dyfod.

I.—Yn y lle cyntaf, ynte, yr ydym yn myned i golli ein gwallt. Gweddill math o fwnci yw y gwallt. Myn rhai fod yn ein plith heddyw ddynion, neu luniau dynion, ag ynddynt olion mwy nodweddiadol o'r mwnci na'r gwallt. Ond y mae'r *process* trwy yr hwn y mae dyn y dyfodol i golli ei wallt yn myned yn y blaen yn gyflym heddyw. Er prawf o hyny, sylwer fel mae rhai dynion *right* dda yn penfoeli yn anamserol! ac fel mae rhai o'n dynion mwyaf *smart*, ein *young Britons* gobethiol, yn cael amser caled, gyda chynnorthwy y *patent hair-producers* goreu, i sicrhau cernflew yn werth i son dau air am danynt. Tybir yn awr fod mygu dybaco yn anffafriol i dyfiant y *whiskers*; ond hynyna rhwng cromfachau fel pytase!

Gweddill cyfnod barbaraidd yw y gwallt, a gaiff wisgio i ffwrdd yn gyflym fel y byddo'r dyn yn ymgodi i safleoedd uwch. Mor gyflym

mae yr adeg yn neshau! Rhifer y penfoelion yn yr eglwys neu y capel y Sabbath nesaf. Dyna'r rhai ydynt, trwy ymdrechfaoedd cyndyn, wedi gweithio eu ffordd tuag i fyny trwy dymhor barbariaeth blewog i uchelfanau dysglaer y dyn olaf.

Who had no *blew* ar y coryn gwyn,
Just where the *blew* used to grow!

Dylai y "wigs" fyned allan o ffasiwn. Dynodant awyddfryd nad yw yn yr iawn gyfeiriad, math o chwant isel am *cocoa-nuts* yr Ashanteaid.

Ac am ddyfeisiau anadwaenadwy ac annhraethadwy y boneddigesau a adwaenwn i guddio eu darlunleni phrenologaidd, mae yn anhawdd eu condemnio yn ddigonol. Pa obaith y deuwn ni byth allan o *monkey-land*, os caniateir ac os cymmeradwyir pethau fel hyn?

Os yw Darwiniaeth i gael ei amddifadu felly yn barhaus trwy chwantau ansanctaidd am fyned yn ol ac i waered, ni wnaiff ein plant na'n hwyrion arddangos y copäau llyfnion a dysglaer ydynt arwyddion y gwrtaith Darwinaidd mwyaf uchelryw; etto, fe ddywed y Proffeswr fod natur ar ein trae. Nid yw yn bossibl y gall balchder amddifadu natur o'i bwriad am byth. Hi fyn ein copäau i gyd *bye and bye*, ac O! 'r fath olwg waraidd fydd ar bawb o honom pan fyddom wedi tynu ein hetiau a'n boneti!

II.—Y peth nesaf a ddysgir i ni gan y wyddor Ddarwinaidd yw, y collwn ein dannedd. Nid yn unig cawn ein geni heb ddannedd, ond parhawn trwy ein triugain mlynedd a deg a'n pedwar ugain hebddynt. Dyben dannedd yw cnoi cig a malu bwyd llysieuaidd. Ni fydd dyn y dyfodol yn fwytawr cig; bydd wedi pasio trwy ei gyflwr anwaraidd. I ba beth y rhoddir i ddyn ddannedd fel blaidd? Ac am y dannedd malu, syrthiant allan pan y dychwelwn at y llaeth a'r mêl. Ni wna dyn y dyfodol ddim sydd mor isel a drygsawrus a chnoi gwynwynsyn!

Caiff fyw ar arogl cenin a gwynwyn. Felly, wrth bob tebyg, fe erys ein trwynau gyda ni, a da hyny, fel y byddo gyda ni rywbeth i ddal wrtho. Y rheol yw fod yr organ sydd yn myned allan o arferiad yn myned allan o fodolaeth. Wel, o barth colli ein dannedd i gyd, mae cysur yn hyny i lawer iawn yn y ffaith nad oes ganddynt ddim llawer i'w colli, a chysur i ereill o gael gwared o'r gwyniau, ac o filiau y deintyddion, ac os na fyddwn yn taro wrth ddim caletach na sucan neu fwdran, ni ymdarawn yn weddol iawn. Felly, nid oes achos i'r rhagolwg yma ein dychrynu rhag Darwiniaeth.

Gesyd yr angen arnom i newid tipyn ar ein *bill of fare*. Ffarwel, wedi'n, i gosyn Cardi, a ffarwel i dori cnau! Ond dyna, yr ydym yn greaduriaid sydd yn gallu ymgyfaddasu yn rhwydd at amgylchiadau newyddion. Yr ydym wedi synu llawer yn ddiweddar paham y mae y byd wedi cymmeryd mor rhyfeddol at flawd ceirch a llaeth. Gwelwn yn y ffaith hon broffwydoliaeth, a math o gadarnhad o ragfynegiadau y Proffeswr.

Dywed y Beibl y bydd yr annuwiolion yn rhincian dannedd. Cyflwynwn y sylw i'r gwyddonwyr fel un all fod o werth iddynt hwy.

Fe fydd dannedd yn wastad gan ddynion drwg; maent hwy yn cadw i lawr ar y safle is, ond caiff dynion da wared o'u rhai hwy. Felly, dichon, megys yr ydym yn edrych geneu'r ceffyl er gwybod ei oedran, ni a fyddwn yn y man yn edrych geneuau dynion, er cael gwybod pa mor gyflym y maent yn esgyn i fyny! Cymmered y frawdoliaeth ddeintyddol rybudd! Pan fydd *gums* yn safon rhinwedd, bydd yn bryd i'r deintyddion gau eu *shutters* a thynu eu *sign* i lawr.

III.—Y trydydd pen, a'r pen olaf yn bresenol. Fe'n bygythir ag un peth arall. Bysedd—bysedd ein traed! Arwyddion o Ashanteaeth ydyw y rhai hyn. Mae ar y mwnci eu heisieu er mwyn dringo; ond pa eisieu fydd ar *ideal* ddyn y dyfodol am fysedd ar ei draed? Bydd dyn y dyfodol yn gyfandroedig *(webfooted)* fel aderyn dwfr. Fel mater o ffaith, mae mwy o ddynion felly yn awr nag y gallai dyn anwyddonol ddychymygu. Mae y ddeddf fawr yn gweithio ar y ddau pen—yn tynu'r gwallt oddiar y copa, ac yn cylymu bysedd y traed yn nghyd. Ni ryfeddem nad yw hanner darllenwyr yr erthygl yma, ac y mae y rhai hyny yn cynnwys rhan fawr o ymhenydd y wlad, eisoes â'u bysedd, bysedd eu traed, yn rhedeg yn nghyd, a'u traed yn terfynu mewn math o "free and easy splash," chwedl yr English Hodge. Wrth gwrs, pan fyddo'r dydd wedi ei lwyr gyrhaedd, ni fydd cerdded yn beth cwbl mor rhwydd, ond beth am hyny? Nid yw dyn y dyfodol yn fath o greadur sydd yn myned i gerdded o hyd; mae mwnciod yn cerdded. Rhaid i ddyn adael y mwnci ar ol. Mae digon o ffyrdd i ymsymmud heblaw ei ffwtio hi. Ac fel dyfais ddiweddaf, ni fowntiwn ein *bicycle* gyda'r *motive power* gwefreiddiol *(electrical)*, a gadawn i fysedd ein traed fyned yn nghyd, os mynant.

Gall y sefyllfa newydd yma fod yn anfanteisiol i ddawnsio. Daw y gelfyddyd ffasiynol a boneddigaidd (?) hono yn bob peth ond *graceful*.

Ond nid ein *look-out* ni ydyw hyny. Yr ydym ni yn erbyn dawnsio gyda'i holl arferion llygredig, ac yr ydym yn falch fod yr hen fam natur yn myned i ymyraeth o'r diwedd.

Ar y cyfan, er ein bod yn edrych ar y cyntaf gyda thipyn o fraw, yr ydym hytrach yn awr yn caru'r *outlook*—marchog ar y *bicycle*, byw ar *soup*, rhoi tipyn o awyriad i'n caracter trwy ein "phrenological chart"—ni fydd yn ddrwg iawn. Gall *ideal* ddyn y dyfodol oddef ychydig gloffni ar y naill ben, er mwyn y symlrwydd swynol fydd ar y pen arall. Gwnaed Darwiniaeth ei gwaethaf, yr ydym yn myned i redeg ein ym-ba-rel-o i fyny a sefyll y gafod—ni fydd yn hir!!

Nid Huxley.

HYDREF.

Anadla'r Hydref ar y byd
A'r ddeilen werdd dry'n felen:
Ac O! mae ambell gyfaill gwan
Yn cwympo efo'r ddeilen.—*Ceiriog.*

Y PECHOD ANFADDEUOL.

Fel gweinidogion ereill, y mae llawer iawn o ymofyniadau yn cael eu hanerch i Dr. Layman Abbot gan y bobl hyny sydd yn cael eu blino a u poeni yn nghylch y *pechod anfaddeuol*. Yn y *Christian Union* mae y Dr. yn anerch llawer o ymofynwyr â rhai sylwadau ar y pwnc.

Mae dychymyg clafaidd y rhai a deimlant eu bod wedi cyflawnu y pechod hwn, a'r rhai a anobeithiant am drugaredd, yn gwneyd cam, meddai efe wrthynt, â Duw. Pa fath Fod y maent hwy yn meddwl ei fod? Y maent wedi gosod Moloch yn lle Jehofa, Torqumada tra-gwyddol yn lle Crist.

Yr athrawiaeth sylfaenol gyntaf yn y Beibl—yr hyn sydd yn ei gwneyd yn Efengyl—yw trugaredd. Y gofid yw, nad ydynt yn credu yn y Beibl. Nid ydynt yn credu ei honiad mwyaf sylfaenol, fod Duw yn dda—mai Crist yw Iachawdwr pechaduriaid. Y mae eu Duw yn Dduw caled, creulawn, didosturi. Pe buasai Duw y fath Dduw, ni fuasai gwahaniad tragwyddol oddiwrtho ddim yn golled: buasai yn ennill. Buasai y fath Dduw ag a gollfarnai blentyn i dragwyddol wae am feddwl neu fyfyrdod, gair neu weithred, o feiddiad neu hèr, yn ddiafol—nid Duw. Buasai ymwahaniad tragwyddol oddiwrtho yn nefoedd—nid uffern.

"Os bydd i chwi ganlyn fy nghynghor I," medd Dr. Abbott, "gwnaf yn hyf i ddweyd y gallaf eich gwella o'ch ofn—nid yn uniongyrchol ar foment, oblegyd nid gwaith rhwydd nac esmwyth yw cyfnewid hen arferion a theimladau. Ond rhaid yw i chwi ganlyn y cynghor yn llythyrenol, yn gydwybodol, a chyda dyfalbarhad. Ni ellwch ddadwneyd y gorphenol: nac aflonyddwch eich hunan yn ei gylch.

"Pe buasai Duw y Moloch y mae eich dychymyg wedi ei baentio mewn modd annghyfiawn, buasai yn fwy rhagorol i'w herio nac i'w heddychu. Os mai Tad o gariad yw yr Hwn y mae Crist yn arddangos ei fod, bydd iddo wneyd â chwi yr hyn a all cariad ei wneyd. Os yw Efe yn anfeidrol dda, ni fydd un rhwystr o'i du Ef i'ch dedwyddwch; os yw Efe yn anfeidrol ddoeth, ni fydd i un rhwystr oddi allan ei orchfygu. Ond pa un a ydych yn ddedwydd neu nad ydych, ni waeth hyny ryw lawer. Yr hyn sydd wir bwysig yw, eich bod yn wir a da, ac yn gynnorthwyol i ereill; a chyda golwg ar hyn, nid oes angen bod mewn heddwch â chwi eich hunan. Telwch sylw, gan hyny, i'ch dyledswydd, a gadewch eich tynghed i Dduw. Peidiwch gweddio ar Dduw i faddeu i chwi eich pechod plentynaidd; darfyddwch feddwl am dano. Peidiwch gweddio ar i Dduw eich cadw rhag poen y dyfodol; darfyddwch feddwl am hyny. Meddyliwch yn unig yn ddyddiol pa fodd y gellwch fod y dinesydd, y cyfaill, y gwr, y wraig, y chwaer, a'r fam oreu, a pha fodd y gellwch wneyd mwyaf o ddaioni i ereill o'ch amgylch. Darllenwch eich Beibl yn unig am ei addysgiadau parth dyledswydd ddyddiol a'i addewidion o gymhorth dyddiol. Mewn gair, na fyddwch bryderus am ddim; a chydag amser dysgwch pa fodd i roddi diolch yn mhob peth ac am bob peth.

"Un gair," wrth derfynu meddai, "sydd awdurdodol, y meddyliaf y gallaf hawlio fy mod I wedi astudio y Beibl am fwy o amser gyda mwy o fantais ac yn fwy gofalus nag ydych chwi, a dywedaf heb un petrusdod nad oes dim yn y Beibl i warantu y grediniaeth fod unrhyw bechod ag y bydd i Dduw wrthod maddeu iddo os bydd i ddyn ddyfalbarhau i edifarhau o'i blegyd. I'r addewid ei fod Ef *yn maddeu pob pechod* nid oes un eithriad."

C. W.

TORIAD Y DYDD.

'Roedd geneth fach amddifad yn flin ar doriad dydd,
Yn eistedd dan yr ywen werdd â dagrau ar ei grudd,
Yn syllu yn ofidus ar fedd ei mam a'i thad,
A'i dwylaw gwaelion oedd yn mhleth yn deisyf esmwyth-had.

Dywedai yn alarus, "Tylodi yw fy rhan;
Mae'r byd yn gwgu arnaf fi, a 'nghalon inau'n wan;
Wrth rodio llwybrau adfyd nid oes i mi ddim hedd;
O na bawn efo 'nhad a mam yn huno yn y bedd.

Mae stormydd blinion bywyd yn chwythu arnaf fi;
Nid oes i mi na ffrynd na chân i wrando ar fy nghri;
Mae dirmyg annhosturiol yn troi fy nghri yn wawd;
'Does undyn byw yn trugarhau wrth eneth wael, dylawd.

Ar ol y stormydd blinion sy'n cūro yn y byd,
Daw angeu ar ei ddystaw daith i'n dwyn i'r porthladd clyd;
O byddwn ninau'n barod i orphwys ynddo ef;
Os nad oes cysur yn y byd, mae cysur yn y nef.

Talhaiarn.

YN FFYDDLON AR YCHYDIG.

"'Nhad, 'dwy' I ddim yn meddwl y galla' I aros gyda'r Meistri Jones ar ol y mis hwn."

"Pa'm hyny, Harri? 'Roeddwn I yn meddwl fod y lle yn lle da."

"O, mae'r lle yn burion. Yr wyf wedi bod gyda nhw bron blwyddyn, ac nid ydynt yn rhoi dimai yn rhagor i mi nâ'r adeg gyntaf yr ês yno; ac mae hyny'n tori 'nghalon."

"Efallai nad wyt werth dimai'n rhagor."

Nid hyfryd i Harri oedd clywed hyn, a chododd ei ysgwyddau mewn ffordd o ateb.

Cuddiai y tad y wên a chwareuai ar ei wyneb, ac yna aeth yn mlaen. "A wyt ti yn gwneyd dy waith cystal ag y gelli, ac mor ofalus o fuddiannau dy feistr â phe baet yn cael dwbl y gyflog, Harri? Mewn geiriau ereill, a wyt ti yn gwneyd dy oreu?"

"Wel, na, 'nhad: 'dwy' I ddim yn meddwl 'y mod I, a 'allan' nhw ddim dysgwyl hyny am yr hyn maent yn roi i mi."

"Paid hidio beth maent yn *ddysgwyl*. Gwna dy hun mor werthfawr iddynt fel nas gallant fforddio dy golli di, ac ni fydd trafferth am dy gyflog. Oni wyddost fod pum' dyn am bob safle, ac y rhydd dy feistri eu safleoedd i'r dynion a wnant y gwaith oreu? 'Rwy'n meddwl y dywedaf wrthyt y profiad a ges I pan oeddwn ieuanc. 'Doeddwn I ddim mor ffodus, neu efallai mor anffodus, â thi, Harri. Mewn geiriau ereill, 'doedd gen' I neb i ymddybynu arno ond fy hun. Collodd fy nhad arian drwy ffolineb ei bartner pan nad oeddwn I ond plentyn, a chan iddo farw yn fuan wedi'n, ni adawodd ond prin ddigon ar ol i gynnal fy mam.

"Gan fy mod yn ddigon hen, gadewais yr ysgol, ac ês at waith. Ar ol newid unwaith neu ddwy, ces safle oeddwn yn hoffi, a gwnes fy meddwl i fyny y cadwn hi os gallaswn. 'Allwn I ddim fforddio myn'd o le i le, Yr oeddwn wedi bod yno am amryw flynyddoedd, a phob blwyddyn yr oedd fy nghyflog wedi cynnyddu ryw ychydig, pan y cymmerwyd un o'r *partners* yn beryglus o glaf. Parodd hyny i gyfran helaeth o waith ychwanegol ddisgyn arna' I, yr hwn oedd, erbyn hyn, yn ormod i mi. 'Rwy'n cofio fy mod yn myn'd adref yn yr hwyr yn flin ac yn isel fy yspryd.

"'Paid hidio, Harri,' ebai mam, 'all e' ddim para yn hir.'

"'Ni hidiwn pe b'ai fy nghyflog yn werth y gwaith,' achwynwn inau. Ond drwy yr holl amser yr oedd gen' I obaith dystaw y cawsai fy nghyflog ei chynnyddu fwy nag arfer gyda dechreu'r flwyddyn newydd. Gyda'r gobaith hwn yn fy nal i'r lan, gweithiwn yn galed, a llwyddwn i wneyd gwaith dau bron. Dyfala, gan hyny, fy siomiant pan y derbyniais I, ar ddechreu y flwyddyn newydd, y gyflog a addawsid i mi cyn i'r partner syrthio yn glaf. Pan y gwelais na ches I yr arian ychwanegol y teimlais fy mod wedi dysgwyl am dano. Yr oeddwn wedi bwriadu cael llawer o bethau i mam a finau, ond siomwyd fi. 'Annghofia' I byth pa mor drwmgalon yr ês I tua thre' y noson hono. Ni freuddwydiais ddweyd wrth mam am fy siomiant: tybiais na wnai ond peru blinder iddi. Ond ni fum hanner awr yn y ty cyn ei bod wedi clywed yr holl stori.

"'A,' meddwn inau wrth derfynu'r hanes, ''weithia' I ddim un diwrnod fel yr wyf wedi gwneyd. Gallant chwilio am rywun arall.'

"''Addawson' nhw ddim rhagor i ti, 'do fe, Harri?' gofynai mam.

"'Naddo, ond yr oeddwn yn dysgwyl y gwnaent ei roi i mi.'

"''Wyt ti yn bwriadu ymadael?' ebai.

"'Na, wrth gwrs, 'alla' I ddim fforddio gwneyd hyny,' ebwn inau yn ddiraen.

"'Wel, ynte,' ebai mam yn ei ffordd ysgafn, siriol, 'gweithia mor galed ag yr wyt wedi gwneyd, yr un mor gydwybodol â phe baet yn

derbyn yr oll a ddysgwyli; ac yna, pan y daw y ty yr wyt yn bwriadu bwrcasu i mi, mwya' derbyniol fydd. Paid gwneyd yr *annghyfiawnder* â'th *hunan*, Harri, o roi dim llai nâ'th oreu.'

"Pa mor aml wedi hyny yr wyf wedi sylweddoli nerth y sylw hwnw pan yr wyf wedi gwel'd bechgyn yn gwneyd yr annghyfiawnder hwnw â'u hunain. Wel, mi gymmerais I gynghor fy mam, a gwnes fy ngwaith mor drwyadl ag y gwyddwn I y ffordd i'w wneyd. Oddeutu dechreu Chwefror darfu i'r partner a fu'n glaf ymwellhau gymmaint, fel yr oeddwn I yn cario ei lythyron iddo bron bob dydd, ac yn rhoi iddo hanes y fusnes am y dydd blaenorol. O'r diwedd, un boreu tua diwedd y mis, dywedodd wrthyf y gwnai efe ddychwelyd at ei waith dranoeth. Mor dda 'rwy'n cofio y diwrnod hwnw. 'Rwy'n cofio hyd y nod fanylion yr ystafell lle y cefais I ef bron â gorphen ei foreufwyd. Yr oeddwn wedi rhoi fy adroddiad, a gosod y llythyron ar y bwrdd, ac ar fedr myned allan, pan y dywedodd,

"'Aroswch funyd, Williams. Mae gen' I rywbeth i'w ddweyd wrthych.'

"'Dalla' I ddim cofio ei eiriau yn gywir, Harri; ond ystyr yr hyn ddywedodd oedd hyn:—Ychydig cyn dechreu y flwyddyn daeth ei bartner ato, a gofynodd iddo beth oedd yn oreu i'w wneyd tuag at godi yn fy nghyflog. Cytunasant eill dau y dylasai fod yn rhagor nâ r hyn oeddynt wedi addaw i mi; ond o herwydd llawer o ddyryswch yn nglyn â'r fasnach, penderfynasant beidio gwneyd unrhyw gyfnewidiad hyd nes y buasai'r partner claf yn abl i fyn'd o amgylch.

"'Ac yr oedd ystyriaeth arall, Williams,' ebai yn mhellach. 'O herwydd y dyryswch hwn yn y fasnach, penderfynasom eich gosod chwi ar brawf, ac yr wyf yn falch i ddweyd i chwi sefyll y prawf hwnw yn ardderchog; ac yn awr, wrth weled fod pethau yn y fasnach wedi troi allan yn well nâ'n dysgwyliad, yr ydym yn abl i gynnyg i chwi ran yn y fusnes. Yr ydych wedi gwneyd eich hun yn anhebgorol i ni, ac yr ydym yn falch i ddangos ein cymmeradwyaeth yn y ffordd hon.'

"Am foment, Harri, dacth teimlad o fraw drosof wrth gofio pa mor agos y bum i fethiant pe buaswn wedi gwneyd fel yr oeddwn wedi bygwth, ac wedi llaesu fy ymdrechion. Fy nheimlad arall oedd o ddiolchgarwch gwresog i fy mam.

"Wel, dyna bron yr oll sydd gen' I ddweyd. Mae gen' I adgofion melus am yr adeg y darfu i freuddwydion fy ieuenctid gael eu sylweddoli o un i un. Prynais dy bychan i fy mam, a ches y fraint o'i gwel'd yn ymsefydlu yn gysurus yno, ac yn y ty hwnw y mae yn byw yn awr.

"Yr un fusnes? Do: hi ddaeth i'm dwylaw I o'r diwedd, ar farwolaeth y partner arall. Ond Harri, 'dwy' I ddim yn dweyd hyn wrthyt gyda'r amcan y gwnei di gael fy mhrofiad I, ond i ddangos fod yr egwyddor yn aros o hyd yr un.

"Ae edrych ar y pwnc mewn ystyr fasnachol yn hollol, mae yn *talu* i wneyd dy oreu, a *dim* ond dy oreu; ond mae rheswm arall ac uwch dros wasanaeth ffyddlon, yr hwn a gei di, drosodd a throsodd, yn y Tywysydd y mae y Meistr Mawr wedi adael yn rheol i fywydau ei weision."

NODYNAU GWASGAROG.

Y LLYFR EMYNAU A THONAU.

Mr. Gol.,—Geilw "Philos" sylw at y Llyfr Emynau a Thonau ag y teimlir cymmaint o'i angen arnom fel enwad, a cheisia gan rywun i roddi *start* adnewyddol i'r mudiad i sicrhau y cyfryw lyfr. Wel, dyma *start* ynte, a diolchaf yn gynhes i Philos gyda llaw am ei nodiadau enwadol sydd yn nodwedd mor ddyddorol yn eich rhifyn diweddaf, er nad wyf yn cytuno o gwbl â'r cynghor a rydd yn y nodyn diweddaf o berthynas i'r *British and Foreign Unitarian Association*. Mae'n ymddangos i mi, mewn un gair, hytrach yn *selfish* i guro wrth ddrws y gymdeithas trwy y blynyddau am help i adeiladu ac adgyweirio capeli, &c., a pheidio gwneyd un ymgais i osod ein diolchgarwch mewn ffurf sylweddol hyd y nod ar raddfa fechan. Gyda'r un sylw hyna, deuwn at y llyfr emynau. Nid oes dadl i fod, mi a dybiaf, gyda golwg ar y possiblrwydd o gael y llyfr oddiar olwg fasnachol ar y mater. Mae'r peth yn hollol gyrhaeddadwy gyda chydweithrediad calonog yn ein gwahanol gynnulleidfaoedd, a theimlaf yn hyderus y byddai dwy fil o gopiau o lyfr yn cynnwys emynau a thonau yn y Nodiant Newydd am y pris o 2s. 6c. neu 3s. 6c. wedi eu gwerthu i gyd cyn pen pum' mlynedd. Yr anhawsder mawr, fel mae gwaethaf y modd, ydyw yr un bersonol—pwy sydd i olygu'r llyfr? Dywedir nad oes yr un cerddor yn ein plith wedi cyrhaedd y safle benderfynol hono uwchlaw ei frodyr sydd yn ei nodi allan fel y person cymhwys at y gwaith. Cymmerwn yn ganiataol mai felly mae hi. Onid yw yn bossibl i ffurfio cydeisteddfod o ryw bedwar neu ragor i olygu rhan gerddorol y llyfr? Mae y ffaith fod Sir Forganwg a Sir Aberteifi, ar ol ychydig iawn o drafodaeth, wedi cytuno yn galonog i gynnal cymmanfa fawr gerddorol yn Abertawe yn ystod yr Haf nesaf yn fy nghefnogi i gredu y gallant gydweithio mewn modd hollol mor galonog ar fater y llyfr hwn. Paham lai? Dyma i chwi *skeleton* o gyfeisteddfod fel cnewyllyn i weithio arno. Sir Forganwg—Meistriaid William Harris a D. E. Jones; Sir Aberteifi—y Parch. W. J. Davies a Mr. William Williams. Ychwaneged rhywun arall etto at y nifer hyna. A byddwn I yn teimlo yn gryf dros fod y Parch. R. J. Jones yn golygu'r emynau. Mae e gartref yn y gwaith, yn parhau i lafurio ar y maes hwn, ac wedi profi ei gymhwysder trwy y derbyniad cyffredinol mae ei lyfr emynau wedi gael yn ein heglwysi yn ystod y deuddeg mlynedd diweddaf. Nid yw llyfr Mr. Jones, mwy na rhyw lyfr arall, ddim heb ei ddiffygion, fel yr addefa'r golygydd ei hun yn ei ragymadrodd. Enwaf ryw ddau, beth bynag, ag y byddai efallai, yn fy ngolwg I, yn ddoeth i'w gochelyd yn y dyfodol. Mae Mr. Jones, er mwyn cael amrywiaeth testynau, wedi gollwng i fewn nifer o emynau nas gellir dweyd mai barddoniaeth ydynt. Gwell, feddyliaf fi, fod heb yr emyn os bydd yn ddiffygiol yn y peth byw a olyga Caledfryn pan y dywed mai barddoniaeth yw "Gwirionedd wedi ei ysprydoli gan deimlad." Peth arall. Iawn

fyddai parchu teimladau llawer o frodyr a chwiorydd yn ein plith sydd wedi arfer cyssylltu syniadau uniawngred â rhai o emynau mwyaf poblogaidd Cymru. Nis gallant, rywsut neu gilydd, ddarllen na chanu "Am graig i adeiladu," "O Iachawdwr pechaduriaid," "Yn dy waith y mae fy mywyd," &c., heb fod yr ysprydiaeth iawnffyddol yn ymrithio o flaen eu llygaid, ac yn peru gofid iddynt. Ond gyda'r ddau ddiffyg hwn, nad ydynt o ryw bwys mawr wedi'r cwbl, cam ardderchog yn mlaen yn Emynyddiaeth yr Undodiaid Cymreig oedd llyfr Mr. Jones. O'r braidd na ddywedwn mai yn y llyfr hwn y swniodd yr acen gyntaf oedd yn dangos fod Undodiaeth Gymreig mewn *touch* â'r Eglwys gyffredinol yn mhob man ac yn yr holl oesau. Nid yw y deuddeg mlynedd diweddaf wedi pasio heb wneyd eu hargraff ddwfn ac arosol ar y gangen hon o farddoniaeth, ac nid oes amheuaeth genyf na fydd casgliad newydd o emynau, dan law Mr. Jones, yn gymmaint o welliant ar ei hen lyfr ag oedd hwnw ar ei holl ragredegwyr. Wel, dyna *start*, fel yr addewais, i'r Llyfr Tonau ac Emynau. Nid oes amser i'w golli. Cymmer y llyfr ryw ddwy neu dair blynedd i'w ddwyn allan, a thebyg y bydd y llyfr emynau presenol allan o *brint* cyn hyny. Yn awr yw'r amser i ymaflyd yn y gwaith. Deued ereill â'u hawgrymiadau, ac yn ein holl drafodaeth, ceisiwn gadw undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd. TEIFI.

LLYTHYR Y BRENIN AGBARUS AT IESU GRIST.

Yr wyf wedi clywed am danat, ac am y gwelliantau a wneir genyt, heb lysiau na chyffeiriau: canys dywedir dy fod yn rhoi eu golwg i'r deillion, yn gwneuthur i'r cloffion rodio, yn glanhau y gwahanglwyfus, yn cyfodi y meirw, ac yn iachau y cyfryw ag ydynt yn cael eu blino gan glefydau o hir barhad. Wedi clywed hyn oll am danat, cefais fy llwyr argyhoeddi fel ag i gredu un o'r ddau beth hyn, naill ai dy fod y gwir Dduw, ac wedi dyfod o'r nef i gyflawnu y cyfryw wyrthiau; neu ynte mai Mab Duw ydwyt, ac yn eu cyflawnu: gan hyny, wele fi yn awr yn anfon y llinellau hyn, gan ddeisyf arnat ddyfod drosodd yma ac iachau fy nghlefydau. Heblaw hyn, wedi clywed fod yr Iuddewon yn grwgnach ac yn cynllunio drwg yn dy erbyn, yr wyf yn dy wahodd i fy ninas hon, yr hon nid ydyw yn wir ond bechan ond prydferth iawn, ac yn ddigon i weini cysur i ni ein deuoedd.

ATEB EIN HIACHAWDWR I LYTHYR Y BRENIN AGBARUS.

Gwyn dy fyd di, Agbarus, am gredu o honot ynof fi, yr hwn nis gwelaist, canys ysgrifenedig yw, y rhai a'm gwelsant nis credant, a'r

rhai nis gwelsant a gredasant i iachawdwriaeth; ond yn mherthynas i'r mater yr ysgrifenaist am dano, hyn sydd i hyspysu i ti fod yn rhaid i bob peth er mwyn y rhai y daethum I, gael eu cwblhau, ac yna y cymmerir fi i fyny, ac y dychwelaf ato ef a'm danfonodd: ond wedi fy esgyniad, mi a ddanfonaf un o'm dysgyblion, yr hwn a iacha dy glefyd, ac a rydd fywyd i ti, ac i bawb ydynt gyda thi.

YR ATEB ARAFAIDD, &c.

Nid beth a ddywedir genych chwi,
Yn gymmaint a'r modd ei dywedir,
Nid cymmaint yr iaith a ddefnyddiwch chwi
A'r dôn yn yr hon ei trosglwyddir;
Gall y geiriau oll fod yn fwyn a theg,
A'r dôn megys saeth yn trywanu,
Y geiriau yn fwyn fel yr awel chweg,
A'r dôn beru i'r galon i dori.

HOLIADAU.

1. A ydyw y carw yn colli ei gyrn bob blwyddyn? 2. Trwy ba nifer o ffurfiau o fodolaeth y mae giar fach yr haf (pili pala) yn pasio? Trwy ba nifer redynau? 3. Pa nifer o ddail sydd i flodeuyn y briallen? 4. Yn mha le yr edrycheeh am y prif wahaniaethau rhwng creadur yn byw ar lysiau ac un yn byw ar gig? Q.Q.

ADSAIN

O hen gân Gymraeg yw y llinellau canlynol. Carwn gopi o'r gwreidd, ol: mae'r un sydd genyf yn anmherffaith iawn. Mae yn dechreu- "O lawer gwaith y buo I yr ochr draw i'r nant," &c.—T. C. U.

How oft on yonder babbling brook,
My Dora, have I strayed;
And every other joy forsook
To meet my lovely maid!

How often in the darkest night
We've joined in vows of love,
With none to witness our delight
But Him who rules above!

Ah! should my Dora prove untrue
For some more favoured swain,
To Cambria's shore I'll bid adieu,
And ne'er return again!

But when from Dora I shall part
For some far distant shore,
What pangs will rend this throbbing heart
To meet my love no more!

—*Translated by William Morgan, Esq., F.R.S., Actuary of the Equitable Assurance Office, and nephew of the Rev. Dr. Richard Price.*

——

CYMMANFA GANU 1891.

Er mwyn arbed llafur i mi, fel Ysgrifenydd, i ymohebu â'r gwahanol eglwysi a fwriadant gymmeryd rhan yn y gymmanfa uchod yn Abertawe, dymunaf, trwy gyfrwng Yr Ymofynydd, hyspysu i'r cyfryw yr hyn ydys wedi wneyd oddiar pan yr ysgrifenais o'r blaen. Cyfarfu Pwyllgor Undeb Merthyr ac Aberdar yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, dydd Llun, Medi 1af, ac yn y cyfarfod hwnw, penderfynwyd gohirio hyd nos Sadwrn yn mhen yr wythnos i Gapel Twynyrodyn, Merthyr, a cheisiwyd gan bob cynnulleidfa anfon wyth tôn gyda geiriau cyfaddas i fewn, fel y gallesid dethol o honynt ddigon o donau i wneyd i fyny ragdrefn y gymmanfa. Hyspyswyd hefyd y byddid yn ethol arweinydd y gymmanfa yn y cyfarfod yn Merthyr. Nos Sadwrn, Medi 13eg, cyfarfu y pwyllgor drachefn yn Merthyr, pryd yr oedd 28 o gynnrychiolwyr yn bresenol. Daeth pob cynnulleidfa â'i chyfran o donau, a detholwyd chwech boneddwr at y gorchwyl o chwynu o'r nifer hwn y nifer gofynol at y rhagdrefn. Yna, aethpwyd at y gwaith o ethol yr arweinydd. Penderfynwyd i gario'r etholiad yn mlaen trwy y *ballot*, ac y cymmerid dwy bleidlais. Y tro cyntaf, ceisiwyd gan bob cynnrychiolydd i ysgrifenu ar ddernyn o bapyr a roddasid iddo enwau dau foneddwr y carasai efe fod yn arweinydd, a'r ail dro i bleidleisio dros y ddau a fuasai yn uwchaf ar y bleidlais gyntaf. Enwyd saith o bersonau i gyd, ond gan i Mr. D. E. Jones, Cefn, gael mwy o bleidleislau na'r chwech arall gyda'u gilydd, gwelwyd mai anfuddiol oedd myned yn mlaen at yr ail bleidlais; felly, etholwyd Mr. Jones yn unfrydol i fod yn arweinydd y gymmanfa nesaf yn Abertawe. Ac os yw y ffyddlondeb a'r medr a ddangoswyd gan Mr. Jones yn ein cymmanfa ni yn Sir Forganwg y llynedd yn safon i benderfynu tynghed ein cyfarfod nesaf, diamheu y bydd yn llwyddiant perffaith. Bwriada Mr. Jones dalu ymweliad personol â'r holl eglwysi, yr hyn fydd yn gaffaeliad mawr, er mwyn cyd-ddealltwriaeth rhwng y cantorion. Cwrddodd y chwech boneddwr a neillduolwyd at y gwaith o chwynu yn Aberdar nos Sadwrn, Medi 20, a buwyd am oriau yn ddi-

wyd yn ceisio dethol y tonau goreu, a llwyddwyd i gyflawnu y rhan drymaf o'r gwaith. Yr wyf yn hyderu y gellir cael y rhagdrefn yn barod i'r wasg cyn y bydd y llinellau hyn yn nwylaw y darllenydd. Carwn glywed oddiwrth ysgrifenyddion yr undebau, a rhyw amcangyfrif o'r nifer y carent gael. Bwriedir argraffu tua 1,500.

Os oes rhywrai am unrhyw wybodaeth pellach yn nglyn â'r gymmanfa, bydd yn hyfrydwch genyf ei rhoi.

J. Hathren Davies.

Wedi ysgrifenu yr uchod, derbyniais nodyn oddiwrth Mr. William Williams, Llanbedr, yn achwyn fy mod wedi gwneyd cam ag ef yn Yr Ymofynydd diweddaf gyda golwg ar y gosodiad fod unwaith bob deng mlynedd yn ddigon mynych i gynnal cymmanfa tebyg i'r un a fwriedir gynnal yn Abertawe. Dywed Mr. Williams nad penderfyniad y pwyllgor oedd hyn, ond ei farn bersonol ei hunan. Drwg genyf am y camgymmeriad; ond dichon na ddarfu i Mr. Williams wneyd y mater yn ddigon clir. Yr oedd y cam, er nad o bwys mawr, yn hollol anfwriadol.—J.H.D.

GETHSEMANE A CHALFARIA.

Pan wanha fy serch at Dduw,
Pan y ceisiaf ffydd fwy byw,
Tro'f mewn meddwl at y lle
Enwog, Gardd Gethsemane.

Yno rhodiaf rhwng y gwydd
Yn nghysgodau ola'r dydd;
Gwelaf y digymhar Un
Yno'n wylo wrtho'i hun.

Pan at ddyn gwanha fy serch,
Pan fo'm cais am ffydd fwy derch,
At Galfaria troi a wnaf,
At ei drist olygfa'r âf.

Gwelaf yno'r ing a'r loes
A ddyoddefwyd ar y groes,
Tristwch, trallod, cariad cu,
Ffydd yn drech nag angeu du.

Yna deuaf 'nol mewn hoen
Wedi dysgu gwerth pob poen,
Gwerth y ffydd a'r nerth a gawn
Yn mhob hunan-aberth llawn.

Mr. Gol.,—Nid yn rhwydd iawn yr wyf yn medru ysgrifenu yn iaith fy mam, onide y mae yn fwy nâ thebyg y byddai i mi anfon gair yn awr ac yn y man i'w osod ar dudalenau Yr Ymofynydd. Aml, fe ddichon, y byddai fy ymdrechion yn ffafriol i'r hyn sydd yn ymddangos yn eich misolyn, ac weithiau, yr wyf yn sicr, byddent yn mhell o hyny. Beth bynag am hyny, fy nymuniad yn bresenol yw, gwneyd sylw neu ddau ar nodiadau "Philos" yn eich rhifyn diweddaf mewn perthynas i'r casgliadau tuag at y Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. Hyd y nod pe gallai "Philos" ddangos fod unrhyw gymdeithas yn Nghymru yn gwneuthur mwy dros yr achos Undodaidd yn y Dywysogaeth nag eiddo y *British and Foreign*, etto, ni fyddwn I am attal ein casgliadau tuag at gymdeithas sydd yn gwneyd cymmaint dros Undodiaeth yn mhob cyfeiriad. Na, na, Philos; ceisiwch ein cymhell fel cenedl i gyfranu yn fwy helaeth tuag at achosion Cymreig os mynwch, ond na fydded i ni laesu yn ein cyfraniadau tuag at gymdeithas sydd wedi ac yn gwneyd mwy dros Gymru nag un gymdeithas ag a wn I am dani yn bodoli yn mhlith Undodiaid Cymru.

Ap C.

A ydwyt ti, ddarllenydd, erioed wedi sylwi ar hyn? Mae yr holl fyd mawr bob amser o fewn ychydig bach i eisieu a newyn. Pe'r attelid pob llaw sy'n cynnyrchu am ddwy neu dair blynedd, fe fwyteid i fyny bob peth bwytadwy, a byddem yn rhwym o farw. Nid pell o le chwaith ydyw sylw Amnon [a oes darllen ar Amnon heddyw?] —

Pe delid pob llaw am wyth awr a deugain,
Fe welid dydd braw ofnadwy ar Lundain.

ADOLYGIAD Y WASG.

Byr-gofiant i'r diweddar Barch. T. P. Evans, Pontardulais, *gan Wateyn Wyn, yn nghyd a dwy Farwnad gan Onllwyn a Penar. Cyhoeddedig gan Daniel Owen, Pontarddulais. Pris 6ch.*

Nid oes ond ychydig, os neb, a gredaf, o'n darlleuwyr nad ydynt yn adnabyddus â gwrthddrych y byr-gofiant uchod. I Undodiaid Ceredigion, efallai ei fod yn fwy adnabyddus fel Evans, Ceinewydd; ac nid oes ond ychydig o honynt, yn ddiamheu, nad ydynt wedi cael y fraint o'i wrando yn pregethu tra yn ymweled â dwfr y môr. Ac i'r sawl sydd wedi cael y fraint o'i glywed, pa un bynag ai yn pregethu neu yn darlithio, bydd ymddangosiad y llyfryn bychan hwn, yn yr hwn y ceir crynodeb o brif ddygwyddiadau ei fywyd, yn nghyd â desgrifiad bywiog a chywir o Penry fel dyn, fel pregethwr, ac fel darlithydd, yn sicr o fod yn dderbyniol. Y mae safle awdwr y llyfr fel llenor, yn nghyd â'r adnabyddiaeth o wrthddrych y cofiant, yn ddigon i sicrhau pob Cymro y cant yn y llyfr werth eu harian. Byddai yn dda gan y rhai a adnabyddent Penry Evans yn dda pe y buasai tipyn yn rhagor

o'i hanes yn cael ei gofnodi, ac hefyd pe buasai rhai o'i bregethau, ac yn enwedig rhai o'i ddarlithiau, yn cael eu cyhoeddi. Pwy ag sydd wedi cael y fraint o'i glywed yn darlithio ar "Bod yn ddyn," "Bod yn onest," "Bod yn briod," &c., nad yw yn teimlo awydd i'w darllen etto. Efallai y bydd awdwr a chyhoeddwr y llyfr hwn ar hanes ei fywyd mor garedig a chymmeryd yr awgrym. Am y byr-gofiant dan sylw gall ein darllenwyr deimlo yn sicr, os yn teimlo awydd i'w gael, na fydd iddynt edifarhau.

NODIADAU MIN Y FFORDD.

Y MAE cryn dipyn o rwgnach yn mhlith eisteddfodwyr ein gwlad ar hyn o bryd o herwydd y dull yn yr hwn y mae ein prif wyl genedlaethol yn cael ei chario yn y blaen yn bresenol, ac nid heb achos ychwaith. Prif achos yr anfoddlonrwydd yw fod yr iaith Gymraeg yn cael ei hanwybyddu yn ormodol, ac mai yn yr iaith Saesneg y mae y rhan fwyaf o'r gweithrediadau yn cael eu cario yn y blaen. Gobeithio y bydd y gwrthdystiadau sydd wedi cael eu gwneyd eisoes yn foddion i ddwyn oddiamgylch rywfaint o welliant yn y cyfeiriad hwn. Nid oes neb am gauad allan yr iaith Saesneg yn hollol, ond y mae pob rheswm yn dweyd y dylai hen sefydliad Cymreig o'r fath hwn gael ei gario yn mlaen yn benaf yn yr hen iaith.

"Moesoldeb Rhyfel y Degwm:" dyna bwnc y ddadl fawr sydd yn cael ei chario yn mlaen yn y dyddiau hyn rhwng Deon Owen (Llan Asaph) a Mr. Gee (Dinbych). Buasai yn ddyddorol iawn oni bai fod y ddau yn methu cadw ymaith rhag ymdrin â materion personol. Y mae llawer ffordd o edrych ar y pwnc hwn, fel pob pwnc arall. Mewn un peth, fodd bynag, y mae y Deon fel pe yn sefyll ar y tir uwchaf. Dadleua fod gwaith rhai dynion yn gwrthod talu y degwm oddieithr y cânt ostyngiad yn anonest; ac yr wyf yn methu gweled sut y gellir edrych ar y weithred mewn un goleuni arall. Y mae gwaith dynion yn gwrthod talu yn gyfangwbl, a hyny yn egwyddorol, yn hollol ddealladwy; ond pan eir i wrthod talu dim, os na cheir swllt neu ddau o ostyngiad, nis gellir yn iawn ei gyfiawnhau.

Ymddengys fod ymdrech i gael ei gwneyd i sefydlu achos Undodaidd yn y Casnewydd (Newport). Lleygwr o'r dref dan sylw sydd wrth wraidd y symmudiad yn benaf Nid oes genym, ar hyn o bryd, un capel yn Sir Fynwy, a gobeithio y try'r ymdrech hon i sefydlu un yn un o brif drefi y sir allan yn llwyddiannus.

Y mae yn eithaf tebyg y bydd y Gauaf dyfodol yn un caled yn yr Iwerddon. Methiant yn nghynnyrch y tatws ydyw'r achos, ac ofnir y bydd rhaid i luaws mawr o'r trigolion ddyoddef eisieu bwyd, os na

wneir rhyw ddarpariadau ar eu cyfer. Nid yw ond ofer, fel yr ymddengys yn bresenol, dysgwyl dim cynnorthwy oddiwrth y Llywodraeth; y maent hwy yn brysur gyda'r gwaith o garcharu ac erlid y dynion sydd yn dangos eu cydymdeimlad â'u cydwladwyr anffodus. Ond gobeithio, er hyny, y gwneir darpariadau ar gyfer y rhai hyny a effeithir gan fethiant yn y cnydau, fel na fydd raid i neb ddyoddef dim eisieu.

Yn yr *Inquirer* am Medi 20fed, ceir y nodyn canlynol :—"Yr wyf yn ddiweddar wedi talu ymweliad â Gogledd Cymru, a thra yno bum yn ymofyn am gapel neu achos Undodaidd, ond i ddim pwrpas. Mewn rhai parthau o'r wlad, y mae yn bossibl i Undodwr fynychu capel Annibynol neu Fedyddiol gyda graddau o gysur, ond nid felly yn Ngogledd Cymru, lle nad oes yr un siawns i ddewis rhwng Eglwysyddiaeth o'r ffurf fwyaf ragfarnllyd ag Annghydffurfiaeth o'r ffurf fwyaf Galfinaidd. Nid oes amheuaeth nad oes amryw deuluoedd Undodaidd yn ymweled â Rhyl, Colwyn, a Llandudno bob blwyddyn. Paham na ellid gwneyd ymdrech i lefeinio y clamp—a'r fath glamp, o herwydd credaf nad oes un gynnulleidfa Undodaidd yn Ngogledd Cymru." Gellir dweyd yr un peth am lawer o leoedd yn Neheudir Cymru hefyd, megys Aberayron, Ceinewydd, &c. PHILOS.

Manion ac Hansion.

TREBANOS.—Awst 31, cynnaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei chyfarfod adroddiadol, dan arweiniad y Parch. W. A. Clarke, o Abertawe. Aeth pawb drwy eu gwaith yn fedrus. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Misses Mary Morgans, Jane Bowen, a S. J. Lewis, a Mri. John Hopkins, John J. Williams, David Davies, a L. Hopkin; hefyd canodd yr ysgol amryw ddarnau yn ystod y cyfarfod, a chwareuodd Mri. D. E. Williams a J. H. Morgans amryw ddarnau ar yr *harmonium*, fel rhwng pobpeth yr oedd yn gyfarfod dyddorol iawn. Yr oedd yr ysgoldy yn orlawn, a dymuniad pawb wrth ymadael oedd, "Melus, moes etto." Y mae yr ysgol hon wedi mynu *harmonium* yn ddiweddar yn werth £23.—*Un oedd yno.*

LLWYRHYDOWEN.—Darfu i Mr. Worsley, J.P., a'i deulu parchus aros am 7 wythnos yn Gellifaharen. Y mae y boneddwr uchod yn Is-lywydd y *British & Foreign Unitarian Association*, ac yn Gadeirydd y *Sustentation Fund.* Datganodd y teulu uchod eu dymuniad i glywed Cor Undeb Dosparth Isaf Ceredigion yn canu, ac o ganlyniad, cynnaliasom *musical service* y Sul, Medi 14, pryd y canodd y cor, dan arweiniad y Parch W. J. Davies, ddetholion o'r tonau a ganwyd yn y gymmanfa ddiweddar, yn nghyd â'r corawdau, 'We never will bow down" *(Judas Maccabæus)*, 'Thanks be to God' *(Elijah)*, a'r 'Halelujah Chorus' *(Messiah)*. Dywedodd y Misses Worsley (y rhai ydynt gerddorion) eu bod wedi synu yn fawr fod cor gwledig yn alluog i ganu darnau o'r fath uchod. Ennillodd y datganiad eu cymmeradwyaeth, yn enwedig y corawd, 'Mawl fo i Dduw.' Canodd Mrs. Thomas, y Bwlch, a Miss Jones, Rhydysais, y deuawdau, 'Oh, never bow we down,' a 'Gadewch i blant bychan ddyfod ataf fi.' Adroddodd Master Simon Jones, Rhydyfennau, 'The Musicians' (Longfellow), a'i chwaer, Miss Jones, 'The Psalm of Life' (Longfellow), a Mrs. Jones, Gelliaur, 'The Builders' (Longfellow). Cadeiriodd Cadben Davies, Rhydowen, yn ddeheuig dros ben, a throdd y cyfan yn llwyddiant perffaith, oblegyd yr oedd capel eang Llwynrhydowen, ar lan a'r llawr, yn orlawn.—W.J.D.

Mae yn y nef a'r ddaear fwy o bethau
Nag a freuddwydir yn d'athroniaeth di,
Horatio.

Mae y gelfyddyd fawr o garu eich gelyn yn gynnwysedig mewn peidio byth a cholli golwg ar y dyn ynddo.

ABERDAR.—Cafwyd gwyl dê dra llwyddiannus yn yr Hen-Dy-Cwrdd, y Llun cyntaf o Fedi, ac yr ydym yn ddiolchgar am y cydymdeimlad a'r cynnorthwy a gawsom yn ngwyneb ein dyled, yr hwn yr aethom iddo yn adnewyddiad ein capel. Yfodd dros 450 dê, a bu llai na hyny yn gwrando'r gweinidog yn traethu ar "Y Tŷ yr wyf Fi yn byw ynddo," yn yr hwyr.

Y Beibl yn mhob bwthyn yn Ffrainc; dyna'r hyn sy'n eisieu i ddyrchafu ac adgenedlu ein pobl.—*V. Hugo.*

Gweithiwch heddyw; ni wyddoch beth fydd i'ch rhwystro yfory. Peidiwch gadael i 'fory yr hyn a allwch wneyd heddyw. Felly, dechreuwch arbed amser yn awr; nis gallwch ddechreu yn rhy gynnar.

GWYLIA A GWEDDIA.

Na chais orphwys, Gristion cu,
D'Athraw tirion dd'weda,
Mae o'th gylch elynion lu,
Gwylia a gweddia.

Dy arfogaeth nefol dwg,
Nos a dydd gwregysa,
Nes el heibio'r dyddiau drwg,
Gwylia a gweddia.

Clyw fuddugwyr gwlad 'rol gwneyd
Eu gorchestion dewraf,
Oll yn unllais per yn dweyd
Gwylia a gweddia.

Clyw, uwch pawb, yr Arglwydd clyw,
Car yr hwn a'th gara;
Cuddia'i air mewn calon fyw,
Gwylia a gweddia.

Fel pe'n unig arnat ti
Pob peth ymddybyna,
Nes dileu pob pechod du,
Gwylia a gweddia.

PRIODAS.—Awst y 29ain, yn Nghapel y Cribin, gan y gweinidog a cherbron y cofrestrydd, Mr. Daniel Davies, saer, Capel St. Silin, â Miss Anne Harries, Lluast, ger Ciliau-Ayron.

ABERDAR.—Cafwyd cyfarfodydd diolch am y cynauaf, Sul, Medi 21, yn Nghapel y Graig. Tair oedfa. Y gweinidog yn gwasanaethu.

NEWPORT.—Y mae un Mr. Thomas Moore yn ceisio pa nifer o drigolion y lle hwn gydymdeimlant â'n syniadau ni. Wesleyad oedd Mr. Moore; Undodwr yw yn awr, awyddus i ledaenu ei syniadau.

ABERDAR.—Hwyr Sul, y 14eg, diweddaf, talodd y Parch. T. Lloyd Jones, Liverpool, ymweliad â ni yn yr Hen-Dŷ-Cwrdd, a rhoddodd i ni ei argraffiadau o'r "Passion Play," fel y mae yn cael ei actio yn Ober-Ammergan. Darlunir yn y *play* hwn hanes yr wythnos ddiweddaf o fywyd Iesu Grist.

LLANDYSSUL.—Y mae yn bleser genym nodi fod ein cyfaill anwyl, Mr. John Evans, cyfreithiwr, Llandyssul, wedi ei bennodi yn *commissioner* i weini llwon. Yn mlaen yr elo yn ei alwedigaeth. Y mae Mr. Evans yn Ysgrifenydd Capel y Graig, ac yn barod bob amser i wneyd yr hyn a all er hyrwyddo llwyddiant yr eglwys.—Drwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Worsley, cafodd Ysgol Sul y Graig wledd o de a bara brith yn Gellifaharen, dydd Mercher, Medi 3ydd, a threuliwyd y prydnawn yn hynod hapus. Cymmerodd y plant ran mewn gwahanol chwareuon diniwed, a chawsant gyflawnder o *fiscuits, lozenges,* a *buns.* Ar ol canu emyn, talodd y Parch. W. J. Davies, y Parch. W. James, B.A., a'r Cadben Davies, Rhydowen, ddiolchgarwch gwresog i Mr. a Mrs. Worsley am eu haelfrydedd. Teg yw dweyd y darfu i Mr. Philip Worsley, Jun., ei frawd a'i chwiorydd oll, wneuthur eu goreu i ddyfyru y plant. Cyn ymadael, darfu i Mr. Whitely, *guest* Mr. a Mrs. Worsley, dynu darlun da o'r Ysgol Sul, ac yr ydym yn bwriadu ei hongian yn festri y capel.—W.J.D.

GELLIONEN.—Sadwrn, Awst 30, cynnaliodd yr eglwys uchod ei gwyl de flynyddol pryd y cafodd oddeutu 800 eu diwallu â'r angenrheidiau hyny oeddynt wedi eu darparu ar eu cyfer, sef te a bara brith. Cafwyd diwrnod hyfryd a phawb wrth eu bodd yn gwledda ar y danteithion. Yn ystod y dydd, darfu i Mr. Davies, Prif Lywydd Pensylvania, yr hwn sydd yn enedigol o ardal Pontardawe, ac yn awr ar ymweliad â'r wlad hon, bresenoli ei hun yn ein gwyl, a chyfranogi o'r te a'r bara brith. Chwareuodd Seindorf Bres Gellionen, o dan arweiniad Mr. D. H. Morgans, amryw ddarnau yn fedrus dros ben yn ystod y dydd. Rhwydd hynt iddynt i ddringo bryn dyrchafiad.

Fel 'rwy I yn ei deall, Efengyl neu newyddion da Duw, yw ei Air sydd yn llefaru wrthym, trwy ba gyfrwng bynag, gan ein dysgu sut i fyw.—*Savage.*

Gwneir temlau gorwych o gerryg mân, a gwneir bywydau mawrion i fyny o ddygwyddiadau bychain.

Anfonwyd y pennill hwn gan y bardd Burns at wr anllythyrenog oedd yn meddu ar lyfrgell hardd :—

"Free through the leaves, ye maggots,
Make your windings;
But for the owner's sake, Oh!
Spare the bindings."

Mae pob dydd yn gangen o Bren y Bywyd, ac yn drwmlwythog o ffrwythau. Os gorweddwn i lawr yn ddioglyd oddi-tano, gallwn farw o newyn; ond os siglwn y cangenau, fe syrthia rhai o'r ffrwythau i'n rhan ni.

Yr oedd hen wraig 80 oed wedi arfer derbyn torth yn wythnosol oddiwrth ryw *public charity*, ac mae wedi ei hamddifadu o hono o herwydd myned i gyfarfod Wesleyaidd a ddygwyddai gael ei gynnal y drws nesaf i'w chartref. Ow! gywilydd gwaradwyddus!

Fe ddywed Dr. Talmage gymmaint o ddwli a nemawr i neb a adwaenwn, ac felly, ystyriwn y dylai gael *full credit* am ambell dipyn o synwyr a ddywedir ganddo. Meddai, "Y mae rhai dynion yn waeth na'u credo. Yn fy ngolwg I, y broffes ardderchocaf o grefydd Iesu Grist y dichon un dyn byth ei wneuthur yw bywyd sanctaidd, wedi ei gyflwyno i wneuthur y byd yn ddedwydd ac yn dda." Mae hwnyna yn fyrach na'r Catecism Byraf, ac yn anfeidrol well.

Mewn ateb i'r cwestiwn, Pwy sydd Gristion? meddai croten ieuanc, Un yn credu yn Iesu Grist ac yn ymhafio yn iawn. Pwy rydd ateb gwell?

Dywedir fod cynnydd mawr mewn gwallgofrwydd trwy'r wlad. Y prif achos —*alcohol*. Y prif rwystr—gochelyd *alcohol* a gwneuthur ymgais am fywyd tawel, heddychlawn, boddlongar, a gwrteithiad helaeth o'r holl rinweddau Cristionogol.

Ceir y *cancer* yn llawer amlach yn mhlith gwrrywod nag yn mhlith menywod. Y rheswm tebygol: y bibell a'r dybaco. Mae yn bechod fod rhieni yn caniatau i blant anaddfed i chwareu â ffon eu dinystr.

Marwgofion.

Mai 20, Miss Mary Evans, yn 24 oed, o'r ddarfodedigaeth. Yr oedd Miss Evans yn ferch i Mr. a Mrs. Evans, Cwmmeudwy, ac yn chwaer i Mr. John Evans, cyfreithiwr, Llandyssul. Menyw dawel, bwyllog, a chariadus, oedd Miss Evans, a gair da gan bawb iddi. Yr oedd yn aelod selog o'r Eglwys Sefydledig yn Llandyssul. Fel arwydd o'r parch mawr deimlid tuag ati hi a'i rhieni parchus, daeth un o'r tyrfaoedd mwyaf i'w chynhebrwng ag a welwyd erioed yn Llandyssul: yr oedd cynnifer â 39 o gerbydau yn yr angladd, heblaw nifer lluosog o wyr ceffylau. Y dydd Sadwrn canlynol cludwyd yr hyn oedd farwol o honi i gladdfa Eglwys Llangeler. Gwasanaethodd Mr. Jenkins, Ficer Llandyssul, a Mr. Davies, gweinidog y Graig, yn y ty cyn cychwyn, a Mr. Jones, Curad Llandyssul, yn Eglwys Llangeler, yn absenoldeb anorfod Ficer Llangeler. Nid *marw* wnaeth eich anwyl Fair, ond ymadael o'r byd presenol i fyd yr ysprydoedd; gan hyny, bydded i chwi, yn rhieni, brodyr, a chwiorydd, ymdawelu yn y wybodaeth fod y Tad cariadus yn gofalu am dani y tu draw fel y tu hwn i'r Iorddonen ddofn.

Gorphenaf 25, Mr. John James, teiliwr, Pentrecwrt, dros 80 oed. Yr oedd yr ymadawedig yn nai i'r diweddar Hybarch John James, Gellionen, a bu am ugryn yspaid o amser yn aelod o eglwys y Graig hyd nes y methodd gyrchu i'r capel o herwydd henaint a meithder y daith. Gorphenaf 28, claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn nghladdfa Eglwys Llandyssul. Gweinyddodd gweinidog y Graig yn y ty a Mr. Jones, y curad, yn y gladdfa. Boed i'r plant roddi eu hyder yn y Tad o'r nef fel yr Hwn sydd yn gwneuthur y cyfan er y goreu.

Awst 16, yn wyth mlwydd oed, John, mab Mr. a Mrs. Evans, Gellihen, ger Bwlchyfadfa. Darfodedigaeth ydoedd ei ddolur. Bachgen siriol a dengar ydoedd John, ac aelod selog o Ysgol Sul y Bwlch,

lle y mae ei rieni yn aelodau parchus. Y dydd Mawrth canlynol daeth tyrfa luosog i'w gynhebrwng. Gwasanaethodd y Parch. W. J. Davies yn y ty, a phregethodd yn nghapel Pantydefaid cyn cludo gweddillion yr un bychan i'r gladdfa gyfagos. Na fydded i chwi, rieni, wylo heb obaith ar ol John, oblegyd ei eiddo ef yn ddiamheuol yw teyrnas nefoedd.

Awst 21, o'r ddarfodedigaeth, Walter Price Jones, mab y (diweddar) Daniel a Mary Jones, Barley Mow, Llanbedr, yn 27 oed. Fel y rhan fwyaf yn y clefyd hwn, bu ein cyfaill ieuanc yn dihoeni am gryn amser, ac yr oedd ei gydnabod yn gweled yn eglur fod afiechyd marwol wedi gafaelu ynddo, ond yr oedd efe ei hun yn meddwl am wella braidd hyd yr anadliad olaf. Gŵyr pawb ei bod yn drist a thorcalonus gweled dynion ieuainc yn cael eu tori i lawr yn nghanol eu gobeithion, ond nid oes ond y profiadol a Duw a ŵyr deimladau perthynasau agos. Yr oedd yn un o aelodau ieuainc yr Ysgol Sul a'r ysgol gân yn Mrondeifi yn amser sefydliad yr achos, ac yr oedd yn gantor ardderchog. Yr oedd hefyd yn gyflawn aelod yn y capel oddiar yn ieuanc. Aeth wedi hyn allan o'i gymmydogaeth enedigol i ddylyn ei alwedigaeth fel masnachydd, ac anaml y cymmerai hamdden i dalu ymweliad â'i hen gyfeillion, a chollasant i fesur mawr eu golwg arno hyd nes y dychwelodd o'r Brif Ddinas i'w hen gymmydogaeth, a'r clefyd marwol yn ei gyfansoddiad. Gweinyddwyd arno'n dirion yn ystod ei afiechyd gan gylch eang o berthynasau. Gadawodd i alaru ar ei ol wraig a dau blentyn, mam oedranus, a brodyr a chwiorydd, a llawer ereill. Ar ddydd ei angladd daeth torf luosog i dalu iddo y gymmwynas olaf. Claddwyd yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Mr. Evans, Llanybyther (A), ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. Mr. Pritchard (W), a gweinidog y lle. Aden y nefoedd fyddo'n daenedig dros ei weddw, a'i blant, a'i fam, a'i holl berthynasau.

Medi 12, John Davies (Teifiwyson), Lleiniau Cottage, Pencarreg, ger Llanbedr, yn 67 oed. Bu ein hanwyl gyfaill yn gwaelu am rai blynyddau—weithiau yn waeth ac weithiau ychydig yn well, ond ar y dydd uchod cyrhaeddodd derfyn eithaf ei yrfa ddaearol; rhyddhawyd ef o'i boenau a'i flinderau; newidiodd fyd amserol am fyd tragwyddol, fyd yr ymddangosiadau am fyd y sylweddau. Yr oedd yn enedigol o Gellan—mab John a Jemima Davies, Lan, ac yno y treuliodd y rhan flaenaf o'i oes. Gwniedydd oedd yn ol ei alwedigaeth, a phan yn ieuanc bu'n gweithio llawer yn Mynwy a Morganwg, nes iddo o'r diwedd ymsefydlu yn ei ardal enedigol. Yn y flwyddyn 1871, priododd ag Eleanor Williams, merch y diweddar David Williams, Lleiniau, Pencarreg. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ac ysgrifenodd lawer o farddoniaeth a rhyddiaeth, a gwelir ei weithiau yma a thraw ar dudalenau'r Ymofynydd. Yr oedd yn briod hawddgar, yn gyfaill didwyll, a hynod gymmwynasgar. Mewn gwleidyddiaeth yr oedd yn Rhyddfrydwr gonest a phybyr, ac nid oedd pryder yn mha fyddin y byddai ar ddydd brwydr. Llanwodd lawer swydd bwysig a defnyddiol yn ei gymmydogaeth o bryd i bryd. Yr oedd yn un o sylfaenwyr yr achos Undodaidd yn Mrondeifi, a bu yn gefnogwr gwresog iddo tra y parhaodd ei iechyd a'i nerth. Yr oedd yn un o ddiaconiaid y capel, a bu yn ysgrifenydd am lawer o flynyddau, ac am rai blynyddau yn drysorydd, ac erys gwaith ei gariad a'i hunan-aberth mewn cof gan yr ystyriol am amser maith. Ar ddydd ei gladdedigaeth daeth torf luosog o gyfeillion a pherthynasau i hebrwng ei weddillion i fedd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y ty ac ar lan y bedd gan y gweinidog, ac yn y capel gan y Parch. Mr. Pritchard (W). Nid oes genym bellach ond cyflwyno y weddw alarus, a'i chwaer, a'r holl berthynasau, i nodded y nefoedd.

Medi 17, Mr. Rees Jones, *currier*, Wern Newydd, Llanfihangel-ar-arth, gynt o Landyssul, yn 39 oed. Dyn ieuanc ffraeth, diniwed, parod i gymmwynasu pawb, oedd Rees. Yr oedd o dalentau cryfion, yn cymmeryd dyddordeb neillduol mewn gwleidyddiaeth. Arferai gyrchu i Lwynrhydowen. Boed i'w fam a'r teulu oll sugno eu cysur oddiwrth Dad y gweddwon, o herwydd colli Rees. Medi 20, daeth lluaws mawr i dalu y gymmwynas olaf iddo. Yn y ty gweinyddodd y Parch. W. J. Davies, ac yn nghapel Pantydefaid traddododd yr Hybarch T. Thomas bregeth bwrpasol iawn i'r amgylchiad. Yna hebryngwyd gweddillion ein hanwyl frawd i'r gladdfa gyfagos.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.